CYMDEITHAS HYNAFIAETHAU SIR GAERFYRDDIN

THE CARMARTHENSHIRE ANTIQUARIAN SOCIETY

SWYDD WAG: YSGRIFENNYDD MYGEDOL

Mae Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin, a sefydlwyd yn 1905, yn hyrwyddo astudio hanes, archaeoleg a llên gwerin lleol, ac mae'n un o brif gymdeithasau hanes lleol Cymru.

Mae'r Gymdeithas ar hyn o bryd yn awyddus i benodi Ysgrifennydd Mygedol, a gwahoddir ceisiadau am y swydd.

Gan weithio'n agos gyda'r Trysorydd a'r Ysgrifennydd Aelodaeth, bydd dyletswyddau'r Ysgrifennydd yn cynnwys:

- galw a chofnodi cyfarfodydd Cyngor y Gymdeithas a Chyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol
- dosbarthu gwybodaeth, hysbysiadau a'r Agenda i aelodau'r Cyngor
- ateb gohebiaeth y Gymdeithas neu ei anfon ymlaen at aelodau perthnasol
- cofnodi penderfyniadau Pwylllgor y Rhaglen
- cadw asesiadau risg a wneir gan arweinyddion pob digwyddiad a chadw archif ddethol o ohebiaeth y Gymdeithas a dogfennau gweinyddol ar gyfer eu rhoi yn Archifau'r Sir

ac unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill ar gais y Cyngor.

Cwch fwy o wybodaeth am Gymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin ar www.carmants.org.uk ac ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Gymdeithas.

Dylid ymgeisio am y swydd drwy lythyr at y Cadeirydd, sef Eurig Davies: e.davies11@btinternet.com sydd hefyd ar gael am sgwrs ebost anffurfiol. Bydd angen cynigydd ac eilydd o blith aelodau'r Gymdeithas ar bob ymgeisydd. Rhaid cadarnhau unrhyw apwyntiad gan Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas yn Ebrill.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **Dydd Gwener 15 Hydref 2021**.